**Agenda Eitem Rhif 2(a)**

# PWYLLGOR SEFYDLOG YMGYNGHOROL AR ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol ar Addysg Grefydol (SACRE) a gynhlaiwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar ddydd Iau, 27ainChwefror 2003 am 10 a m.

## YN BRESENNOL

### Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr S Drew, N Hugh-Jones ac M M Jones

### Yn Cynrychioli Cydbwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych

Ms I Barros-Curtis, Mrs J Hannam, Y Chwaer E Kelly ac M B Lloyd.

### Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Parch J Owen (Cadeirydd), T Bryer, P J Collinson, H M Ellis, R J Gibson, S Harris a J M Kirkham.

## HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a Swyddog Gweinyddol (W J Harness).

## CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

M Colbert, M Evans, Parch Athro L J Francis a’r Cynghorwyr K N Hawkins a W Roberts.

### MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

### CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso i gynrychiolydd Cyd Bwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych Mrs J Hanman a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o Bwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol.

**PERSONOL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddamwain a gafodd y Cynghorydd D Jones a dywedodd wrth yr aelodau ei fod ar ddeall fod y Cynghorydd Jones yn gwella'n dda. Gofynnodd aelodau'r Cydbwyllgor i lythyr gael ei anfon at y Cynghorydd Jones yn ymestyn eu dymuniadau da iddo ac yn dymuno adferiad buan.

**1097. EITEMAU BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys er trafodaeth y materion brys canlynol a oedd angen sylw:-

Dogfen ymgynghorol – Gwlad Dysg: Y Rhan Sylfaenol – Blynyddoedd 3 i 7

**1098. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Hydref 2002 (a rannwyd ynghynt) ac a dderbyniodd gymeradwyaeth y Cyngor Sir ar 19eg Tachwedd 2002.

**Materion yn Codi**

**Eitem Rhif 6 (dan Materion yn Codi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2002) – cynlluniau Hyfforddiant Mewn Swydd 2002 / 03** – Atgoffodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau fod y profiad 'Cristionogaeth ar Gael' i'w gynnal yng Nghadeirlan Llanelwy ar 25ain Mawrth. Dywedodd fod hwn yn gyfle i'r mudiad Cristnogol yn Ne Ddwyrain Cymru gyfarfod â'r athrawon i weld sut y gallent helpu'u gilydd. Gobeithiai y byddai cynrychiolaeth dda o'r enwadau crefyddol ac athrawon yno. Cyfeiriodd hefyd at y digwyddiadau yn y Gadeirlan ar y 10fed a'r 12fed Mehefin pan gynhelir dyddiau i ddisgyblion ysgol a bod y ceisiadau oddi wrth ysgolion am le yn y Gadeirlan ar y dyddiau hynny'n ardderchog.

**Eitem Rhif 575 Adroddiad Blynyddol Drafft Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol** – Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod ei bod yn ddrud iawn ac yn golygu llawer o weinyddu i anfon y ddogfen i'r rhai oedd yn ei derbyn yn Sir Ddinbych. Er mwyn arbed arian awgrymodd wrth yr aelodau y dylai'r Adroddiad Blynyddol, yn y dyfodol, gael ei e - bostio i'r

ysgolion gyda chopïau caled o'r ddogfen yn cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor a chyrff eraill sy'n ei derbyn ar hyn o bryd. Wrth gynnig y dylid derbyn yr awgrym, gofynnodd Mrs M B Lloyd am sicrwydd fod pob ysgol ar e bost. Cytunodd yr aelodau i gyd gyda'r cynnig.

**Eitem Rhif 577 Dadansoddiad o Adroddiadau Archwilio** – Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau iddo dderbyn ymateb oddi wrth y Prif Arolygydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i'r llythyr a oedd wedi'i anfon ar ran Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol. Atgoffodd yr aelodau iddo godi pedwar prif bwnc yn y llythyr - (i) yr wybodaeth gyd – destunol a roddir yn yr adroddiadau archwilio (ii) fod y sylwadau yn yr adran Addysg Grefyddol yn aml yn cyfeirio at gyd addoli (iii) nad oedd y sylwadau ynghylch safonau yn aml yn unol â'r safonau a geid yn yr adroddiad, a (iv) fod rhai o'r sylwadau a fynegir yn dangos nad oedd rhai o'r arolygwyr yn sicr o faes y pwnc nac o'r gofynion statudol.

Aeth yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ymlaen i sôn wrth yr aelodau am gynnwys yr ymateb oddi wrth y Prif Arolygydd a oedd wedi mynegi ei gwerthfawrogiad i Bwyllgor Sir Ddinbych am ddwyn y materion i'w sylw. Er y cafodd y rhan fwyaf o'r materion eu hymchwilio a derbyn sylw dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd ei fod yn siomedig o nodi na soniwyd yn yr ymateb am y canllawiau ar gyfer arolygwyr cofrestredig ynghylch cynnwys a chwblhau adroddiadau archwilio a gofynnodd am gymeradwyaeth y Pwyllgor i godi'r mater hwn ymhellach gyda'r Arolygydd Paul Morgan.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion*

## 1099. COFEB, CYSTADLEUAETH A GWASANAETH YR HOLOCOST

Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau i'r Noson Goffau'r Holocost a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr fod yn achlysur teimladwy iawn a mynegodd ei werthfawrogiad fod nifer o enillwyr o Ogledd Cymru wedi cymryd rhan yn y seremoni. Dywedodd wrth yr aelodau i waith celf enillwyr Sir Ddinbych Cyfnod Allweddol 3 a 4 gael eu harddangos yno hefyd.

Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei fod wedi gofyn i'r gwaith celf gael ei ddychwelyd i'r disgyblion a'i fod yn ystyried y byddai'n werth chweil cynnwys copi ohono yn adroddiad blynyddol Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol eleni

er mwyn cydnabod llwyddiant y disgyblion. Cytunodd aelodau'r pwyllgor yn unfrydol y dylid gwneud hynny.

Yna cyfeiriodd y Cadeirydd at enillydd gwobr gwaith celf o Ysgol Uwchradd Dinbych ac er ei fod yn gwybod i lythyr gan ei anfon gan yr Awdurdod at bob disgybl a gymerodd ran yn eu llongyfarch, gofynnodd am i lythyr arall gael ei anfon at Ysgol Uwchradd Dinbych oddi wrth aelodau'r Pwyllgor yn eu llongyfarch ymhellach.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a)* *derbyn yr adroddiad llafar gan yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a'r rhestr o enwau enillwyr o Ogledd Cymru, ac*

*(b)* *anfon llythyr o longyfarchiadau at enillydd gwaith celf o Ysgol Uwchradd Dinbych oddi wrth aelodau Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol.*

**1100.CANLYNIADAU ARHOLIAD 2002**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol grynodeb o ganlyniadau arholiad yn ysgolion Sir Ddinbych ar gyfer 2002 (a rannwyd ynghynt) .

Wrth i'r canlyniadau gael eu hystyried, ac mewn ymateb i'r Cynghorydd N Hugh – Jones, dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth y Pwyllgor mai un o gyfrifoldebau'r Cyngor Sir oedd casglu ystadegau arholiadau mewn ffrormat penodol a sylwebu arnynt. Ychwanegodd, er fod llawer o'r ffigurau canran yn is na rhai Cymru gyfan, y dylai'r aelodau nodi'r gwelliant a fu'n y Sir. Awgrymodd Mrs M B Lloyd y dylid llongyfarch ysgolion Sir Ddinbych am gynnal safonau Addysg Grefyddol mor uchel ag y maent. Ychwanegodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd ei bod yn galonogol nodi yr ymddengys fod rhagor o ddiddordeb yn y pwnc nag a fu yn y gorffennol.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a)* *derbyn canlyniadau arholiad ysgolion Sir Ddinbych am 2002, a*

*(b)* *llongyfarch ysgolion Sir Ddinbych ar y canlyniadau.*

**1101. MAES LLAFUR ADDYSG GREFYDDOL CENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU; RHAI YSTYRIAETHAU**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a rannwyd ynghynt), gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, gan ystyried y sefyllfa bresennol, safiad datganiedig y Llywodraeth, y senario ar gyfer Cymru a hefyd rai dadleuon dros ac yn erbyn Fframwaith Genedlaethol.

Wrth ystyried yr eitem hon, rhoddodd yr aelodau ystyriaeth hefyd i adroddiad ar Symposiwm Pwyllgorau Sefydlog Ymgynghorol Cymru ar Addysg Grefyddol a gynhaliwyd ar 27ain Ebrill 2002 i drafod y meysydd llafur addysg grefyddol y cytunwyd arnynt (eitem agenda rhif 6(b)).

Cyfeiriodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn benodol at gwestiwn 4 ar dudalen 13 yr adroddiad ar y Symposiwm yn gofyn beth oedd raid i Bwyllgorau Ymgynghorol, Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion ei wneud i gynorthwyo codi statws a safonau addysg grefyddol mewn ysgolion. Dywedodd wrth yr aelodau fod Cyd Bwyllgor Sir Ddinbych yn gwneud y rhan fwyaf o'r hyn a ofynnid amdano yn yr adroddiad h y monitro safonau, codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r pwnc, ymweld ag ysgolion arolygu gwersi addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chydweithio gydag Awdurdodau eraill.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau yr awgrymwyd y dylai athrawon fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol weithiau er mwyn iddynt gael y cyfle i rannu unrhyw bryderon allai fod ganddynt ynghylch maes llafur addysg grefyddol. Cytunai'r aelodau'n llwyr gyda'r awgrym hwn a gofynnwyd i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol drefnu i athro ysgol gynradd fynychu un cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ac athro ysgol uwchradd fynychu'r un canlynol.

Aeth yr Arolygydd / Ymgynghorydd ymlaen i gyfeirio at y crynodeb yn 5 ar dudalen 15 yr adroddiad ar y Symposiwm gan ddweud wrth yr aelodau ei fod yn falch y cyfeiriwyd at rôl arolygydd addysg grefyddol yn 5.1. Talodd sylw hefyd i'r lefel o gefnogaeth i addysg grefyddol oddi wrth ACCAC yn ystod y 3 – 4 blynedd diwethaf. Awgrymodd Mrs M B Lloyd, a chytunodd yr aelodau i gyd, y dylai Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol ysgrifennu at ACCAC yn gofyn iddo ystyried un ai penodi'r swyddog rhan amser i swydd llawn amser, o gofio am natur arbenigol addysg grefyddol, neu o leiaf benodi staff tymor byr i gynorthwyo'r swyddog rhan amser i gwblhau prosiectau neu gyhoeddiadau penodol.

Yna rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r dadleuon dros ac yn erbyn Maes Llafur Cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol yng Nghymru. Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau, pe cytunid cyflwyno fframwaith cenedlaethol, y byddai'n dair blynedd o leiaf, ar ôl ymgynghori'n llawn, cyn y gellid ei gweithredu. Aeth ymlaen i ddweud ei fod o'r farn y byddai cyflwyno fframwaith cenedlaethol o fantais ond fod rhaid ymgynghori a chydweithredu gyda Phwyllgorau Sefydlog Ymgynghorol Cymru ar Addysg Grefyddol ac ACCAC yn ogystal â buddsoddi amser i'w datblygu.

***PENDERFYNWYD*** *– fod Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol yn cefnogi cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol yng Nghymru.*

**1102.** **<u>CYMDEITHAS CYMRU O BWYLLGORAU SEFYDLOG YMGYNGHOROL AR ADDYSG GREFYDDOL</u>**

**(a)** **<u>Enwebu cynrychiolwyr i'w hethol i'r Pwyllgor Gwaith</u>**

Dywedwyd wrth yr aelodau, gan mai Mrs M B Lloyd yw cadeirydd presennol Pwyllgor Gwaith Cyd Bwyllgor Cymru a bod yr Arolygydd / Ymgynghorydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw, nad allai aelodau cyd Bwyllgor Dinbych gyflwyno enwebiadau ar gyfer y lleoedd gwag. Er mai dyma'r achos, gofynnodd Mrs Lloyd i'r Ysgrifennydd anfon llythyr at Gyd Bwyllgor Cymru yn cydnabod derbyn y llythyr ac yn cyfeirio at y ffaith nad yw Sir Ddinbych yn gallu cyflwyno enwebiadau.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a) nodi'r llythyr oddi wrth Bwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Cymru ar Addysg Grefyddol ynghylch yr Etholiad i'r Pwyllgor Gwaith, ac*

*(b) anfon ateb at Ysgrifennydd Bwyllgor Ymgynghorol Cymru yn cydnabod derbyn y llythyr a chyfeirio at y ffaith nad oedd Sir Ddinbych mewn safle i gyflwyno enwebiadau.*

(**b)** **<u>Ystyried adroddiad ar y Symposiwm a gynhaliwyd yn Llanidloes ar 27ain Ebrill 2002.</u>**

(fe'i trafodwyd dan eitem agenda rhif 5)

**(c) Derbyn adroddiad llafar oddi wrth aelodau a fynychodd gyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Cymru ar Addysg Grefyddol ar 12fed Chwefror 2003**

Dywedodd Mrs M B Lloyd, Cadeirydd presennol Pwyllgor Gwaith Pwyllgor Ymgynghorol Cymru, wrth yr aelodau iddynt gael cyflwyniad ardderchog oddi wrth Denise Morris, Swyddog Addysg rhan amser ACCAC, ar ddefnyddiau asesu opsiynol ar gyfer addysg grefyddol. Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau y byddi'n sôn am y cyflwyniad hwnnw yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser dywedodd ei fod eisoes wedi defnyddio peth o'r defnyddiau mewn hyfforddiant mewn swydd a bod athrawon wedi bod yn eithriadol o falch ohonynt.

Yna soniodd Mrs Lloyd wrth yr aelodau am yr ail gyflwyniad a wnaed ar 12fed Ebrill gan Gill Maybury o gyd Bwyllgor Cymru. Gofynnwyd iddi archwilio'r adroddiadau blynyddol oddi wrth Gymdeithasau'r Pwyllgorau Ymgynghorol er mwyn dangos sut y maent yn ymateb i faterion rhyng ffydd. Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau mai un o ganlyniad yr archwiliad hwn oedd y dangoswyd fod Cymru wedi gwneud llawer mwy na Lloegr i ymateb i faterion rhyng ffydd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiadau llafar gan yr Arolygydd / Ymgynghorydd a Mrs M B Lloyd.*

**(ch) Derbyn adroddiad llafar oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru a'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ynghylch dirprwyaeth at Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 24ain Chwefror 2003**

Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau y cafwyd cyfarfod positif iawn a bod y ddirprwyaeth wedi codi nifer o faterion.

(i) Pryderon nad oedd dogfennau swyddogol oddi wrth wahanol gyrff, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, yn cyfeirio at yr anghenraid statudol am addysg grefyddol. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog wrth y ddirprwyaeth gan nad oedd unrhyw fwriad i newid yr anghenraid statudol hwn, na thybiwyd fod angen ei gynnwys yn y dogfennau statudol a bod cefnogaeth gyffredinol ac eang ar gyfer addysg grefyddol mewn ysgolion, ar gyfer hyfforddi athrawon ac ar gyfer cefnogaeth ymgynghorol.

(ii) Rôl Pwyllgorau Sefydlog Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol – dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau fod y

Gweinidog wedi gwahodd y cynrychiolwyr i weithio gyda'r grid Dysgu Cenedlaethol a hefyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn codi proffil addysg grefyddol.

(iii) Adnoddau – yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg – dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd yr ymdrechir i symleiddio a chyflymu'r broses o gyfieithu defnyddiau.

(iv) Eglurhad ar Gylchlythyr 10 / 94 – cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu anfon llythyr canllaw atodol allan i egluro'r cylch lythyr hwn.

(v) Symposiwm – 27ain Ebrill 2002 – dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd i'r Gweinidog eu hysbysu, yn dilyn ymgynghori gyda Phwyllgorau Ymgynghorol unigol ynghylch yr adroddiad ar y Symposiwm, pe codai unrhyw fater a fyddai'n gofyn am eu hymateb, y byddai'n fodlon ymateb yr adeg hynny.

Wrth ateb cwestiwn oddi wrth yr Arolygydd / Ymgynghorydd, cytunodd Mrs M B Lloyd ysgrifennu erthygl ar gyfer Newyddion Addysg Grefyddol ar ganlyniad y ddirprwyaeth.

Wrth gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ac i Mrs M B Lloyd am eu hadroddiadau llafar ar eu cyfarfod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn bositif ac yn obeithiol.

***PENDERFYNWYD** derbyn adroddiadau llafar oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Cymru ar Addysg Grefyddol ac oddi wrth Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ynghylch eu dirprwyaeth at Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 24ain Chwefror 2003.*

**(d) Ystyried cofnodion cyfarfod Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Cymru ar Addysg Grefyddol a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2002 (a rannwyd ynghynt).**

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2002.*

## 1103. DEIALOG RHYNG FFYDD AR GYFER POBL IFANC: GWOBR JIWBILÎ'R FRENHINES

Cyflwynodd Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol lythyr oddi wrth Swyddfa'r Jiwbilî Aur a chrynodeb o adroddiad ar Fforwm Ffydd

Pobl Ifanc y Jiwbilî Aur a gynhaliwyd ar 10fed Mehefin 2002 (a rannwyd ynghynt).

Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau fod Ysgrifennydd Pwyllgor YmgynghorolCymru wedi cynrychioli Pwyllgorau Ymgynghorol Cymru ar y fforwm ac wedi mynd â chwe unigolyn gyda hi. Ychwanegodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd fod y cyfraniadau a wnaed gan gynrychiolwyr Cymru wedi gwneud argraff arbennig arno.

Gan gyfeirio'n benodol at lythyr oddi wrth Swyddfa'r Jiwbilî Aur gwahoddodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd yr aelodau i gyflwyno eu sylwadau ar yr awgrym efallai yr hoffai cyd bwyllgorau drefnu achlysur trafod yn eu cylch ar gyfer pobl ifanc gyda ffydd. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd awgrymwyd y dylid anfon copi o'r llythyr oddi wrth Swyddfa'r Jiwbilî Aur a'r adroddiad i'w ganlyn at adrannau Addysg Grefyddol Ysgolion Uwchradd y Sir gyda chais yn gofyn a fyddant yn barod i gymryd rhan mewn Fforwm Ffydd Pobl Ifanc. Awgrymwyd hefyd gynnwys erthygl addas yn Newyddion Addysg Grefyddol a allai gynnwys copi o dudalen 8 yr adroddiad 'Sut mae fydd yn ysgogi gwasanaeth'. Tra'n derbyn y buasai digwyddiad o'r fath yn haeddu ystyriaeth dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau y byddai angen cynllunio gofalus a llawer o waith paratoi er mwyn sicrhau y byddai digwyddiad o'r fath yn llwyddiant. Mynegodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd bryder ynghylch ei allu i drefnu digwyddiad o'r fath heb ryw fath o gymorth o gofio fod ganddo lwyth gwaith trwm yn barod. Dywedodd hefyd, o gofio beth oedd yn digwydd yn y byd ar y pryd, pe cytunid i drefnu digwyddiad yn Sir Ddinbych, na ddylid ei chynnal yr adeg hynny.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a)* *derbyn y llythyr a'r adroddiad i'w ganlyn oddi wrth Swyddfa'r Jiwbilî Aur,*

*(b)* *anfon copi o'r llythyr a'r adroddiad at Ysgolion Uwchradd y Sir gyda chais yn gofyn a fyddent â diddordeb ac yn fodlon cymryd rhan mewn Fforwm Ffydd Pob Ifanc, a*

*(c)* *chynnwys erthygl ynghylch Fforwm Ffydd Pobl Ifanc yn rhifyn nesaf Newyddion Addysg Grefyddol ac y dylai copi o dudalen 8 Crynodeb yr Adroddiad ynghylch 'Sut mae Ffydd yn ysgogi Gwasanaeth' fod yn rhan annatod o'r erthygl.*

**1104. DOGFEN YMGYNGHOROL – PLANT YN DYSGU YN Y RHAN SYLFAENOL**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol Bennod 3 Dogfen Ymgynghorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a rannwyd y diwrnod hwnnw). Dywedodd wrth yr aelodau, er y gofynnwyd am sylwadau'r Pwyllgor Ymgynghorol erbyn 1af Mai, nad oedd wedi derbyn copïau caled o'r adroddiad er mwyn i'r cyd bwyllgor ei ystyried. Bu'n rhaid iddo, mewn gwirionedd, gael copi o'r adroddiad drwy'r rhyngrwyd.

Yna soniodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth yr aelodau am gynnwys Pennod 3 y ddogfen. Soniodd am y chwe chyfnod bywyd y rhennir addysg iddynt ar hyn o bryd ac er fod y blynyddoedd cynnar y tu allan i'r cwricwlwm cenedlaethol yr oedd addysg grefyddol yn bwnc yno. Ychwanegodd y câi addysg y blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd ei reoli drwy Ganlyniadau Dymunol ACCAC.

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd eglurhad i'r aelodau o brif amcanion y newidiadau a soniodd wrthynt am fwriad y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno Rhan Sylfaenol ar gyfer y blynyddoedd cynnar a Rhan Allweddol 1 (3 – 7 mlwydd). Ychwanegodd mai bwriad y cynulliad oedd y dylai fframwaith y Rhan Sylfaenol fod yn seiliedig ar addasu ac integreiddio'r Canlyniadau Dymunol gyda'r rhaglen astudiaeth a'r datganiadau ffocws yn Rhan Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Sylfaenwyd y newidiadau ar, ac mae'n ymestyn, y dysgu sydd ar hyn o bryd yn rhan o Ganlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plant cyn Oedran Ysgol Gorfodol er mwyn ffurfio fframwaith cwricwlwm ar gyfer y Rhan Sylfaenol. Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd wrth y Pwyllgor y byddai saith maes dysgu yn y rhan Sylfaenol -

(i) Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles.
(ii) Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu
(iii) Datblygiad Mathemategol
(iv) Dealltwriaeth Ddwyieithog ac Aml ddiwylliannol.
(v) Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
(vi) Datblygiad Corfforol, a
(vii) Datblygiad Creadigol.

Yna gofynnodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd am gymeradwyaeth yr aelodau iddo ymateb ar eu rhan fel a ganlyn:-

1. Nad oedd Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol yn wrthwynebus i gyflwyno Rhan Sylfaenol ar yr amod

fod cyfraniad addysg grefyddol fel pwnc statudol yn cael ei gryfhau a bod canllawiau oddi wrth ACCAC yn gwneud hynny'n glir.

2. Fod Cyd Bwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol yn cytuno y dylai datblygiad personol, cymdeithasol a lles fod yn greiddiol gan gydnabod fod gan addysg grefyddol rôl hanfodol a holl bwysig yn y maes hwn.

3. Fod Pwyllgor Sefydlog Ymgynghorol Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol yn cytuno y dylai'r meysydd dysgu fod â pherthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i fod yn disgwyl hefyd y byddai perthynas gydag addysg grefyddol, sy'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol.

4. Ei bod yn amlwg fod angen hyfforddiant mewn swydd, a chyflwyno cais y byddai hyfforddiant o'r fath yn sicrhau na châi cyfraniad addysg grefyddol ei anwybyddu a bod gan addysg grefyddol rôl hanfodol, a

5. Chyfeirio at lythyr ar y ffeil oddi wrth Mr J V Williams o ACCAC yn cadarnhau y byddai unrhyw newid i Raglen Blynyddoedd Cynnar yn talu sylw digonol i gynnwys dysgu ysbrydol a moesol ynddi.

Ar ôl ystyried yr uchod -

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo ymateb arfaethedig yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i Ddogfen Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn nhermau 1 – 5 uchod.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p m

*******

**Agenda Eitem Rhif. 4**

## ACCAC – DEFNYDDIAU ASESU OPSIYNOL AR GYFER AG

**EITEM DDIM AR GAEL AR FFURF ELECTRONIG**
**COPIAU YCHWAENEGOL AR GAEL**

**<u>Agenda Eitem Rhif: 5(a)</u>**

## <u>ESTYN – RHANNU O ADDRODDIAD BLYNYDDOL Y PRIF AROLYGYDD</u>

**EITEM DDIM AR GAEL AR FFURF ELECTRONIG**
**COPIAU YCHWAENEGOL AR GAEL**

**Eitem Agenda Rhif 5(b)**

**Drafft: Cyfarwyddyd ar Arolygu Ysgolion Uwchradd – Medi 2004 (Estyn)**

***Rhai o'r prif newidiadau:***

- Tri math o Arolygiad:
  - LLAWN – yn ymdrin â holl feysydd y Fframwaith a'r holl bynciau a chyfnodau allweddol
  - SAFONOL – llai o ddyddiau, hunan-werthuso'n cael ei ddefnyddio'n sylweddol wrth wirio'n ôl y saith cwestiwn allweddol, arolygiad manwl o lai o bynciau
  - BYR – hyd yn oed llai o ddyddiau, arolygiad llai manwl ar rai o'r saith cwestiwn allweddol, a gwerthuso ac adrodd yn groyw ar bynciau unigol

- Cynnwys :
  - 'aseswyr cyfoed'
    - Hynny yw aelod llawn o'r tîm, ac yn athro/athrawes mewn gwasanaeth, a benodwyd ac a hyfforddwyd gan Estyn
  - 'enwebedigion'
    - hynny yw aelod o'r staff o'r ysgol sy'n cael ei harolygu, a fydd yn cynorthwyo yn y broses, mewn rôl 'safonol' neu 'well'
      - Safonol: cysylltu cyn yr arolygiad; ymateb i geisiadau yn ystod; cynorthwyo wrth ddatrys problemau trwy gydol y broses
      - Gwell: megis gyda'r safonol, ond hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm, bod â rhan mewn casglu tystiolaeth (yn cynnwys arsylwi ar y cyd), darparu tystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen

- Pwyslais ar adroddiad hunan-werthuso yr ysgol ei hun, y mae'n rhaid iddo ymdrin â *holl agweddau'r Fframwaith*, a rhaid iddo ganolbwyntio ar:
  - Safonau
  - Ansawdd yr addysg
  - Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Gwrando ar Ddysgwyr – Yn ogystal ag Arolygwyr yn gwrando ar farn dysgwyr, bydd *disgwyl* i ysgolion yn awr *fod â threfniadau yn eu lle* ar gyfer ymateb i farn a phryderon disgyblion

- Ymateb i'r adroddiad – byddir yn gwahodd ysgolion i gyflwyno eu hymateb i'r Adroddiad Arolygu – i'w gynnwys o fewn yr adroddiad (dim mwy nag 1 ochr A4)

- Bydd y graddio'n newid o'r disgrifiadau presennol (colofn chwith) i'r newydd (colofn dde):

| **Graddau Arolygu Presennol:** | | | **Graddau Arolygu Newydd Drafft:** |
|---|---|---|---|
| 1 – Da Iawn | Llawer o nodweddion da, rhai ohonynt yn arbennig o dda | | 1 – da gyda nodweddion arbennig o dda |
| 2 – Da | Nodweddion da a dim diffygion mawr | | 2 – nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| 3 – Boddhaol | Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | | 3 – nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| 4 - Anfoddhaol | Peth gwaith boddhaol ond diffygion mewn meysydd pwysig | | 4 – rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| 5 - Gwael | Llawer o ddiffygion | | 5 – llawer o ddiffygion pwysig |

- Adborth – hyd ag y mae'n ymarferol, dylid rhoi sylwadau byr i athro/athrawes ar ddiwedd gwers, os oes angen dylid trefnu adborth llawnach yn ddiweddarach. Dylai athrawon gyda graddau 1, neu raddau 5 yn gyson, gael eu hysbysu o hynny ar lafar; yna dylid hysbysu'r Pennaeth. Dylai athrawon eraill sy'n gofyn am werthusiad ei dderbyn (yn gyfrinachol gan y ddwy ochr) cyn diwedd y cyfnod arolygu.

- Saith Cwestiwn Allweddol:
  - *Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?*
    - Llwyddiant wrth gyrraedd nodau a gytunwyd
    - Cynnydd wrth ddysgu
    - Datblygu eu sgiliau personol, cymdeithasol a'u sgiliau dysgu
  - *Pa mor effeithiol yw'r addysgu, hyfforddi ac asesu?*
    - Pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn cwrdd ag anghenion dysgwyr a'r gofynion cwricwlaidd neu ofynion y cwrs
    - Manwl gywirdeb asesu a'i ddefnydd wrth gynllunio a gwella dysgu
  - *Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?*
    - Y graddau y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr
    - Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

- *Pa mor dda yw'r gofal a gaiff dysgwyr, a pha mor dda y cânt eu cyfarwyddo a'u cefnogi?*
    - Ansawdd y gofal, cymorth a chyfarwyddyd i ddysgwyr
    - Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol
    - Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal
- *Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?*
    - Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad clir ac yn hyrwyddo safonau uchel
    - Pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwyliol eraill yn cwrdd â'u cyfrifoldebau
- *Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso a gwella ansawdd a safonau?*
    - Pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i werthuso
    - Effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant
- *Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?*
    - Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o'r staff, adnoddau dysgu a'r adeiladau a'r ystafelloedd
    - Pa mor effeithlon y rheolir adnoddau i sicrhau gwerth yr arian

- <u>Argymhellion</u> mewn cyferbyniad â Materion Allweddol i Weithredu Arnynt
    - Dylai'r rhain wneud argymhellion clir ar gyfer gwelliant, a rhoi arwydd clir a phenodol i'r ysgolion o'r diffygion y bydd angen iddynt fynd i'r afael â hwy yn eu cynlluniau gweithredu
    - Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw faterion ble nad yw arfer yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol e.e. gweithred ddyddiol o addoli

- <u>Adroddiadau Pwnc</u> – yn y Cyfnodau Allweddol
    - Cyfnod Allweddol 3 a 4 mewn adrannau ar wahân
    - Adroddiadau Chweched Dosbarth mewn atodiad ar wahân